LG35.S100

*"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."*

# GALAR-GANAU

AR OL Y DIWEDDAR

## BARCH. ISAAC JONES,

(Gweinidog y Bedyddwyr yn Staylittle,)

YR HWN A FU FARW YN DDEDWYDD YN YR ARGLWYDD MAI 31ain, 1858,

Yn y 66ain flwyddyn o'i oedran, a'r 38ain o'i weinidogaeth.

*Buddugol yn Melinbyrhedyn, Nadolig*, 1858.

BEIRNIAID.—HUW TEGAI, ac EDWARD DAVIES, Ysw., DOLCARADOG.

LLANIDLOES:
ARGRAFFWYD GAN J. MENDUS JONES.
1859.

1003310922

# GALAR-GAN GOFFADWRIAETHOL

## I'R DIWEDDAR BARCH. ISAAC JONES, STAYLITTLE.

"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

MAE marw yn osodiad i bob dyn,
Fel nad oes a all ddianc rhagddo un;
Yr uchel fel yr isel radd ei wedd,
A ant i derfynedig dŷ y bedd.
Nid oes gwahaniaeth rhwng y gwych a'r gwael,
Na rhwng cyfoethog mwy na thlawd i'w gael;
Y cryf a'r gwan, y llesg a'r hoenus rudd,
A *gyd*orweddant yn eu gwely cudd.
*Gwaith* na *dychymyg* nid oes yn y bedd,
Na rhithyn o *ddoethineb* o'i fewn fedd.
Maent oll mor *ffol* a'u gilydd, ac mor *gall*—
Nid oes gwahaniaeth rhwng y naill na'r llall.
Mae hyn, wrth feddwl am *enwogion* gwiw,
Yn gwaedu'r galon—rhwygo'r fron yn friw.
Mae rhestru'r *doethion penaf* ynt ar ol,
Yn gydradd â'r *ynfydion*, ac mor *ffol;*
A bod yr *ynfyd hunt* mor *gall* a'r *doeth*,
Yn gwneyd athroniaeth bedd yn ddychryn noeth.
Gan hyny, yn ei *fywyd* y mae dyn
I weithio byw gymeriad iddo'i hun.
Grym ei ddychymyg bwysir drwy ei *daith*,
Mesurir ei ddoethineb yn ei *waith:*
Ei *waith ei hun*, o *hono'i hun o'i ol*,
Ddwed pa un fydd efe ai CALL ai FFOL.
Mae hyn yn wers i ninau ar ein taith,
I ffurfio'n byw-gymeriad yn ein GWAITH.
Mae coffadwriaeth pur y cyfiawn rai
Yn fendigedig yn eu gwaith di fai;
Ond enw y drygionus bydra'n rhydd—
Nid *darfod*, ond yn *sawru'n frwnt* y bydd!

Un "cyfiawn," a gweinidog hardd ei foes,
Oedd ISAAC JONES, *Staylittle*, yn ei oes;
Ond er mai marw yw mewn daear 'nawr,
Mae yn llefaru eto ar y llawr:

Mae cof-golofnau byw o dan y nef
Yn *adlefaru* ei *leferydd* ef.
Ei goffadwriaeth sydd yn anwyl iawn—
Mae'n fendigedig mewn cymeriad llawn.
Y mae rhoi *gwobr* am ALAR GAN o'i ol,
Yn dweyd ei fod yn barchus yn ein côl.
Wrth Alarganu dan wobrwyol wŷn,
Eithafion sy'n dueddol iawn i ddyn;
*Creu cymeriadau* a *dyfeisio da,*
A *mwyhaw'r* gwrthddrych â chwyddiadur* wna;
Rhoi *edyn eryr* i *wybedyn bach,*
Ac *angeleiddio'n* fynych ambell *wrach!*
Peth mynych mewn galar-gân ydyw hyn,
Ac weithiau'r dagrau *gloewon* dry *ddû*'n *wyn!*
Mae hyny'n *gam* â choffadwriaeth dyn,
Yn *ffug* at *enill* gan y bardd ei hun.

Wrth wneyd Galar-gân am y gwrthddrych hwn,
Ymdrechir rhag cymeryd gormod pwn.
Ni wnawn â'n *dagrau* chwyddo *dylif* mawr,
Nes boddi, bron, drigolion daear lawr:
Ac ni ddywedwn fod y byd dan bwn,
Yn teimlo'n ddwys ar ol y gwrthddrych hwn.
Pe d'wedem hyn, ni wyddem bethau gwell—
Er hyny gwyddom fod ei *glod yn mhell.*

Dyn *da, cyffredin,* yn ei fywyd oedd,
Un *diddrwg* a *diniwed* iawn ar g'oedd,
Ni wnai ef ddrwg i neb, er gallu gwneyd—
Ni ddwedai ddrwg pan geisid ganddo'i ddweyd.
Ei duedd ef am bawb oedd *dweyd yn dda,*
A phan nas gallai ni chyhoeddai *drâ.*
Bob amser pan y clywai achwyn bai,
Doeth ddysgu, megys Aaron, *dewi* wnai.
Ni bu'n "gyhuddwr brodyr" yn ei oes,
Pe byddai iddynt wneuthur iddo loes;
Ei gariad twym a guddiai lawer bai—
Maddeugar fyddai ef i'r cyfryw rai.
Ei ymgais penaf yntau oedd ym-ddwyn
Yn addas beunydd i'r Efengyl fwyn:
Gwarthruddo crefydd a ofidiai'i fron,
A chlwyf i'w galon oedd troi cefn ar hon.

* Microscope.

Dianair oedd ei holl grefyddol nawd,
Heb roi un achos tramgwydd i un brawd.
*Bedyddiwr* cywir oedd efe ran barn,
Yn gyfan fel crefyddwr, ac nid *darn:*
Ei ymarweddiad oedd â'i farn yn un,
A'i farn a'i ymarweddiad yn gytun.
Er hyny, nid Bedyddiwr *cul* oedd ef,
Yn dysgu nad âi neb ond *hwy* i'r nef;
Rhydd oedd efe o lyffetheiriau *plaid*—
Fe garai bawb a garai Grist heb baid.
Cyhoeddi *Crist* yn Geidwad i'r byd wnai,
Ac nid ei *blaid,* fel y mae arfer rhai:
Ac er ei fod ef yn bregethwr gwych,
Nid llawer o ryw fawredd oedd 'n ei ddrych.
Pregethu'n syml ac eglur oedd ei nod,
Ac nid cyraeddyd at gywreinrwydd clod;
Dywedyd *synwyr* mewn cyffredin iaith,
Mewn dull o eiddo'i hunan oedd ei waith.
Ei lais oedd hyfryd a dymunol iawn,
Heb ddim yn grâs aflafar yn ei ddawn:
Ni wyddai neb, tra yn ei wrandaw ef,
I ba ryw *blaid* perthynai is y nef.
Ei garu wnai *pob* plaid, gan siglo llaw—
Bu'r nodwedd hon yn undeb rhyngddo a phawb,
Cyfodi'r Groes, a chanlyn Iesu Grist,
Oedd Croes ei oes, yn ngwyneb croesau trist.
Yn gynar * rhoes ei hun o dan yr iau,
A'i gwys i ben a dynodd heb lwfrhau:
Bu yn *Staylittle* DDEUGAIN MLWYDD OND DWY,
A bu'n weinidog difefl a di-glwy'.
Nid rhyw *bost fynag* min-ffordd ydoedd ef,
Yn nodi'r ffordd i *ereill* tua'r nef;
Gweithredu'n unol wnai *â'i enaw'i hun*—
*Cyfeirio* a *chydgerdded yn gytun.*
Ei gorlan ef a gollodd fugail da—
Ei ail am serch yn fuan iawn ni cha,
Efe a'i carodd yn ei thlodi mawr,
A glynodd wrthi tra bu ar y llawr;
Priododd ef â *thlodi*'r eglwys hon—
Anhawdd cael neb wna hyn â chynhes fron.

* Yn 14 oed.

Drwy Gymru teithiodd lawer yn ei oes,
Er mwyn cynorthwy bychan dan ei groes:
Nid troi'n *gardotyn* byddai'n achos Duw,
Ond gwerthu ambell lyfryn er mwyn byw.
Traddodi pregeth byddai'n mlaenaf peth,
A phrynu'r llyfr ar ol ddysgwyliai'n dreth;
Nid adrodd hyn o anmharch yr ym ni,
Ond adrodd ffeithiau'i lafur dan ei gri.
Hyn oedd yn onest—hyn oedd "fasnach deg,"
Yr ym'n ei garu ef am hyn heb freg,
Mae'i Alar Gân yn haeddu nodi hyn,
Gan na fu'i fywyd oll yn "*hawddfyd gwyn.*"

Fel *dyn*, diddichell ydoedd yn ei fryd,
Heb falais tuag at un dyn drwy'r byd;
Efe, un amser ni feddyliai ddrwg,
Nac ar ei wyneb ni theyrnasai gwg.
Dyngarol a chrefyddol oedd ei iaith,
A hoff oedd pawb o'i gwmni ar ei daith:
Oedd hawdd i'w foddio—ofnai fod yn boen—
Mor hawdd i'w foddio a diniwed oen!
Yn nghwmni pawb, yn ieuanc ac yn hen,
Siriolder fyddai'n dawnsio ar ei wen.
Yr oedd ei *gyfeillgarwch* ef yn bur—
Cyfrinach ni ddynoethai er creu cur,
Hynawsedd a thawelwch oedd ei nod,
Yn "was tangnefedd," dyna oedd ei glod.
*Annghydfod* oedd i'w deimlad fel tân poeth,
Neu fel pe rhoddid halen ar gig noeth;
Ni bu erioed yn caru bod mewn dadl—
Ni bu'n ddadleuwr—cas oedd ganddo'i hadl:
Yr oedd efe yn caru i bob dyn
Gael barnu'n dawel drosto ef ei hun.
Un *gonest* ei egwyddor ydoedd o,
Er bod yn hŵy na'i fwriad ambell dro;
Ymdrechai hyd ei allu dalu'n chwim,
Drwy beidio bod yn nyled neb o ddim.

Hynawsach priod ni fu o dan haul,
Yn gynil heb ddim gwastraff yn ei draul:
*Cymedrol* oedd: ond yn *ddirwestwr* byw
Odd'wrth wlybyroedd meddwol o bob rhyw.

Ymunodd â *chychwyniad* Dirwest gu,
A ffyddlawn drosti *hyd ei fedd* y bu:
Temtasiwn idd ei gwrdd erioed ni ddaeth—
Nis gallodd neb chwaith ddweyd mai drwg a wnaeth!
Rhinweddau lawer ydoedd ynddo ef—
TYNERWCH oedd ei *ddiffyg* is y nef.

Mawr golled ydoedd colli un o'r fath—
Un na bu 'rioed i neb yn achos brath!
Un mor grefyddol a heddychlawn oll,
Ac un oedd mor llafurus yn ddigoll.
Galarus ym wrth wel'd yn wag ei *ol*,
Ond nid fel rhai heb obaith ar ei ol:
Ei fywyd ef sydd yn dystiolaeth gref,
Fod marw'n elw bythol iddo ef.
Mae hyn yn perarogli'i enw da—
Ei gofiant fyth yn fendigedig wna.

Mae buchedd dyn yn cynwys mwy o *ddawn*
Nag yw ei *dafod*, er llefaru'n iawn:
Gall tafod ddweyd yn *dda* tra'n llawn o *dwyll*,
Ond *cywir* yw y fuchedd dda'n llawn pwyll.
Mae mwy o ogoneddiad gwir i Dduw
Yn yr *ymddygiad*, nag mewn geiriau gwiw,
Mae'n rhoddi mwy o argraff, mwy o rym,
Mwy o ddylanwad, nag yw geiriau llym.
I'r llygaid, buchedd sydd yn *bregeth fyw*,
Tra llawer pregeth arall *marw* yw:
Rhydd *llygad*, ar ei wrthddrych, fwy o bwys,
Nag a rydd *clust* i'w ymadroddion glwys.
Yr hyn a *welwn*, wyddom fydd y peth,
Tra'r hyn a *glywn* all fod yn *ffug* difeth;
Pob pren adwaenir wrth ei ffrwyth ei hun—
*Ymddygiad*, felly, yw ADWAEN-BRAWF dyn.
Adwaenem ninau ISSAC JONES yn dda,
A'i fuchedd bur yn nghanol byd o bla,
Ei *eiriau* oeddent *rasol*, llawn o flas,
Fel i'w wrandawyr oll y parent ras.
Llewyrchu hefyd wnai'i oleuni ef,
Gan ddangos ei *weithredoedd* is y nef;
Ei *dafod* yn pregethu llawer gaed,
Ond yn pregethu llawer mwy bu'i *draed*.

Ar y mynyddoedd gweddaidd oeddent hwy,
Yn efengylu llwybrau hedd di glwy';
Ar hyd ei oes yn ngwinllan Iesu Grist,
Llafurio wnai, er gwaethaf rhwystrau trist.
Sefydlodd ef ddwy eglwys is y nen,
Sef *Tan-y-lan*, a *Seion*, yn *Rhydwen;*
Fe adeiladodd ef, mae hyny'n syn,
Ddau gapel newydd yn y lleoedd hyn;
A dyled arnynt ni adawai'n bla—
Fe'i talodd oll drwy gydewyllys da.
Pan yn weinidog i *Staylittle* daeth,
Ei gapel ga'dd dan ddyled drom yn gaeth;
Ond drwy gydymdrech â'r cyfeillion cun,
A'i ymdrech diflin yntau yn gytun,
Mewn teithiau'n casglu ato â llwyr fryd,
O'i ddyled tynodd ef yn *rhydd i gyd.*

Ond och! rhoes angeu derfyn ar ei daith!
Drwy hyny rhoddes derfyn ar ei waith;
Y degfed dydd ar ugain o fis Mai,
Ei ysbryd pur ehedeg at Dduw wnai.
Ei berthynasau gawsant ergyd drom—
Dwyn *tad* a *phriod* mwyn wnai angeu ffrom!
"Duw Isaac" idd y weddw yn Dduw sydd,
A'i blant, sef *tri*, ynt yn broffeswyr ffydd;
Boed i'r un Duw ofalu trostynt oll—
Fel Priod tyner ac fel Tad di goll.
Eglwysi'i ofal gawsant golled ddwys,
Y rhai yn drist, a deimlant gan y pwys;
Ei aml gyfeillion a gyd-deimlent friw,
Am ddwyn y *milwr* hwn i Iesu gwiw.
Mae De a Gogledd Cymru, i ryw radd,
O herwydd hyn yn teimlo'r golled ga'dd;
Yr oedd efe yn barchus yn ein mysg,
Fel Cristion difefl ac fel gŵr o ddysg.
Efe yn ieuanc i bregethu roed—
Cyn iddo ef gyraeddyd *ugain oed!*
Aeth i Athrofa'r Fenni mewn mawr lwydd,
Ond ni arosodd yno tros ddwy flwydd.
Efe fu farw'n *chwech a thrigain oed*—
MAEN AR EI FEDD a *heddwch i'w lwch boed.*

UN OEDD YN EI ADNABOD.

# GALARNAD

## Y PARCH. ISAAC JONES, STAYLITTLE.

1 WEDI *marw!* chwerwon eiriau!
Treiddio maent fel saeth i'm clyw,
Nes archolli fy nheimladau,
Gwneyd fy enaid oll yn wyw.
Gwaith anhawdd i'r meddwl egwan
Ydyw canu galar-gerdd,
Tra mae cyfaill mor anwylgu
'N gorwedd yn y fynwent werdd.

2 ISAAC JONES, STAYLITTLE, dirion,
Yn y frwydr mwy nid yw;
Yn ei ddwylaw 'nawr ni welir
Baner achos Iesu gwiw:
Aeth tywyllwch dudew marw
Rhyngom ni a'i ganfod mwy,
Ac am hyn fe deimla Seion
Yn ei thyner galon glwy'.

3 Gostyngedig a diddichell
Yn ei ysbryd oedd ein brawd,
Mewn tangnefedd pur heddychlon
Y symudai yn ei rawd;
Fel y blodyn tlws yn cuddio
Ei brydferthwch gyda'i ddail,
Felly 'r oedd ein brawd cariadus
Mewn gwyleidd-dra bron heb ail.

4 'Roedd ei galon ef mor dyner
Fel nas gallai roddi clwy'
I'w gyfeillion ar un amser,
Parchai eu teimladau hwy:
Wermod sur i'w ysbryd ydoedd
Cabledd a chwedleuon cas;
Gwell oedd ganddo amgeleddu
'R archolledig ar y maes.

5 O! mor ffyddlon yr ymdrechodd
Dros ei Brynwr yn y byd,
Gan argymhell yr euogion
'Ffoi i mewn i'r arch mewn pryd.
Yn ei fuchedd a'i bregethau,
A'i weddiau llawn o ffydd,

Fe ymdrechai ddwyn pechadur
O'i gaethiwed tost yn rhydd.

6 Yn Staylittle a'i hamgylchoedd
Hau mewn dagrau wnaeth yn hir,
Ac yn gorfod cwyno'n fynych
Na chai'r had ddim dyfnder tir;
Ond cyn iddo gadw noswyl,
Sychu wnaeth ei ddagrau oll,
A cha'dd ddechreu fedi'n hyfryd
Ffrwyth cynauaf pur digoll.

7 Yn Tan'lan ac yn Dylifau
Fe fendithiodd Duw ei waith;
Gwawriodd goleu nefol arno,
Ar ol noswaith dywyll faith.
Cof-adeilau yw'r ddwy eglwys
Iddo ef lafurio'n iawn,
Ac fod Ysbryd Duw'n cydweithio,
Gan ei arddel ef a'i ddawn.

8 Nid fel comed 'roedd yn crwydro
Yn ddireol trwy ei oes
O'r fan yma i'r fan arall,
Rhag ofn cwrdd âg awel groes;
Na, fel planed yn ffurfafen
Eglwys Dduw y bu ein brawd:
Yn Staylittle y *dechreuodd*
Ac y *terfynodd* ef ei rawd.

9 Ond er hyny fe ymwelodd
A'r eglwysi bron i gyd;
Trwy y de a'r gogledd hefyd
Yr ymdeithiodd lawer pryd:
Hoffem weled y darluniau
Dynai ei athrylith gref
O gystuddiau'r cristion yma,
A'i ddedwyddwch yn y nef.

10 Fel y gwlith ar laswellt tyner,
Y dyferai 'i eiriau ef,
Nes adfywio'r fron ddiffygiol
A thrugaredd rad y nef:
Gwelid dagrau, gloewon berlau,
Yn addurno llawer gwedd,

Pan y byddai ef yn traethu
  Am rinweddau dwyfol hedd.

11 Ei frawddegau syml, diaddurn,
  A wefreiddiai'n teimlad ni,
Pan y byddai'n son am rinwedd
  Aberth iawnol Calfari;
Heb wneyd ymdrech a chrochfloeddio,
  Curo'r Beibl, a chadw 'stwr,
Toddai ef galonau celyd,
  Gwnai hwy'n union fel llyn dŵr.

12 Lluoedd sydd yn Nghymru heddyw
  Dystiant gyda'u dagrau'n lli,
Mai efe, dan fendith ddwyfol,
  Droes eu ffydd i Galfari.
Yn ei lais oedd gynt mor beraidd,
  Clywsant lais yr Iesu gwiw
Yn myn'd adref i'w calonau,
  Nes eu dwyn i garu Duw.

13 Os yw'r tyweirch heddyw'n cuddio
  Ei wynepbryd serchog cu,
Os dystawodd ei ffraethineb
  Yn y beddrod tywyll dû;
Eto ôl ei ddawn a welir,
  Ol ei lafur yn y byd,
Yn dwyn lluoedd rhag digofaint
  O dan gysgod noddfa glyd.

14 Rhwng hen fynyddau oerion Maldwyn,
  Cofion fydd am amser maith,
Am y mwyniant nefol gafwyd
  Mewn oedfaon, lawer gwaith,
Pan y byddai ef â'i galon
  A'i holl ysbryd fel ar dân,
Yn dweyd am rinweddau'r ffynon
  Ylch bechadur oll yn lân.

15 Mewn cwrdd chwarter na chymanfa
  Ni cheir gwel'd ei wyneb mwy;
Er mai *dystaw* oedd ei dymher,
  Eto mae ei golli'n glwy'—
Clwyf nad oes un balm a'i gwella
  Ond addewid gair ein Duw,
Y cawn gwrdd mewn gwell cymanfa,
  I glodfori Iesu gwiw.

16 Gwn na chafodd ei fendithio
 A dysgeidiaeth helaeth iawn
Mewn ieithyddiaeth nac athrawiaeth,
 Er mwyn helpu ei felys ddawn;
Eto gwyddai'r ffordd i'r galon,
 Sugnai'r enaid yn y man;
Rhoddai falm mewn dwfn archollion,
 A dyddanai'r meddwl gwan.

17 Ond ei yrfa ddaeth i derfyn,
 A chyraeddodd ben ei daith;
Darfu gario'r groes a chwyno
 Dan orthrymder brwydr faith;
Yn y fyddin gwelir gwagle,
 Teimlir colled fawr a dwys;
Trist och'neidio sy'n y gwersyll
 Gan feddyliau galar mwys.

18 Mae'r Dylifau a Staylittle
 Mewn dwfn alar am nad yw
Isaac Jones a'i sel ddiflino
 Mwy 'n eu mysg ar dir y byw.
O! mor chwerw ydyw'r teimlad
 Na chânt mwyach wel'd ei wedd,
Ac adgofio 'i fod yn gorwedd
 Dan dywarchen oer y bedd.

19 Ond ni raid in' anobeithio,
 Ni gawn eto 'i weled ef
Wedi' wisgo âg anfarwol
 Ddelw 'i Brynwr yn y nef:
Hedeg ddarfu 'i enaid santaidd
 O ofidiau'r ddaear ddû,
I fwynhau tragwyddol wynfyd,
 Yn ei gartref dedwydd fry.

20 Ei hyfrydwaith ar y ddaear
 Ydoedd canmol Iesu gwiw,
Am ddyoddef loesion angeu,
 I farwolion gwael gael byw.
Yn y wlad o wynfyd perffaith
 Ei hyfrydwch fydd yn fwy,
Tra yn bythol ganmol haeddiant,
 Dwyfol haeddiant marwol glwy'.

ABRAM BACH.

---

*J. M. Jones, Argraffydd, Llanidloes.*